

Gwybodaeth i Gleifion



Hysbysiad 25 Mai 2006

Deall cyngor yr NPSA

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) yn helpu'r GIG i ddarparu gofal iechyd mwy diogel ar gyfer pawb. Mae'r wybodaeth hon yn sôn am y cyngor y mae'r NPSA wedi'i roi i'r GIG ar wneud yn siŵr fod pigladau morffin a diamorffin yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Sicrhau arfer mwy diogel gyda phigiadau morffin a diamorffin

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) wedi derbyn nifer fechan o adroddiadau am bigiadau dogn uchel (30mg neu fwy) morffin a diamorffin yn achosi niwed i gleifion oedd yn derbyn y meddyginiaethau hyn am y tro cyntaf.

Gall dogn uchel o'r meddyginiaethau hyn fod yn ormod i glaf nad yw wedi derbyn morffin neu ddiamorffin o'r blaen, a gall achosi problemau anadlu, mynd yn anymwybodol a gall, mewn achosion prin, achosi marwolaeth.

Bydd cleifion sydd angen dognau uwch o forffin a diamorffin yn dal i'w derbyn ac nid ydynt yn cael eu heffeithio gan argymhellion yr NPSA.

Os ydych yn cael pigiad morffin neu ddiamorffin mae'n bwysig eich bod yn siarad â'ch meddyg neu'ch nyrs ar unwaith os ydych yn teimlo'n gysglyd iawn neu'n dioddef unrhyw sgil effeithiau.

Pam mae morffin a diamorffin yn cael eu rhoi i gleifion?

Mae morffin a diamorffin yn perthyn i grŵp o feddyginiaethau o'r enw opiadau. Bydd cleifion yn eu derbyn i drin poen difrifol, er enghraifft ar ôl damwain neu lawdriniaeth, neu oherwydd bod canser arnynt. Fe'u rhoddir ar ffurf tabledi, toddiant neu bigiad. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â phigiadau yn unig.

Cyffuriau lleddfu poen yw morffin a diamorffin, ond maen nhw'n gryf iawn a dylid eu trin yn ofalus.

Fel arfer dim ond i drin cleifion sy'n dioddef cyflyrau sy'n galw am leddfu poen hir dymor ac sy'n gallu goddef dognau uchel, neu gleifion y mae eu cyflwr yn dirywio neu'n newid yn gyflym y bydd dognau uchel o forffin a diamorffin yn cael eu defnyddio.

Beth yw'r sgil effeithiau?

Mae sgil effeithiau morffin a diamorffin yn cynnwys bod yn gysglyd, teimlo fel cyfogi, neu gyfogi a rhwymedd. Os ydych yn profi'r rhain neu unrhyw symptomau eraill y credwch all fod yn ganlyniad i'r meddyginiaethau hyn, dylech siarad gyda'ch meddyg neu'ch nyrs.



Cyngor yr NPSA i'r GIG

Mae'r NPSA'n rhoi cyngor i staff gofal iechyd ar sut i ragnodi, trafod a rhoi'r meddyginiaethau hyn yn ddiogel i gleifion a sut i fonitro eu heffeithiau clinigol yn effeithiol.

Am yr NPSA

Mae'r NPSA'n hybu gofal iechyd mwy diogel drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch cleifion gan staff a chleifion, a thrwy weithio gyda sefydliadau GIG i hybu diwylliant agored a theg.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am waith yr NPSA, ewch i'n gwefan ar **www.npsa.nhs.uk**